

TESTUN CURADOL

Atlas Dros Dro.

Mapio'r Hunan yng Nghelf Heddiw

Wedi'i guradu gan Alfredo Cramerotti

Mae Atlas Dros Dro yn arddangosfa sy'n cyflwyno syniad amgen, cyflenwol i fapio fel y'i ddyfeisiwyd mewn ystyr draddodiadol. Gwyddom fod yna map a map. Mae yna gartograffeg a gymeradwyir gan gymdeithas, a chymhwysir yn wyddonol ac un a ganfyddir yn unigol - wedi'r cyfan, nid oes gan bob agwedd ar ein hamgylchedd na'n bywyd yr un gwerth. Mae pob un ohonom yn asesu, yn blaenoriaethu ac yn graddio pethau mewn ffordd wahanol, ac mae hyn yn golygu y gallwn wahaniaethu rhwng cartograffwyr-archwilwyr a chartograffwyr-artistiaid.

Mae map yn ymddangos yn wir oherwydd ei fod yn uniongyrchol, yn ddarllenadwy ac yn berthnasol i'n llygaid a'n synhwyrâu. Ond os byddwn yn deall y cysylltiad rhwng realiti a chynrychioliad, yn y ffordd mae'n bodoli o fewn gwaith celf, mae'n amlwg bod yr hyn a ganfyddir fel rhywbeth uniongyrchol mewn gwirionedd yn gynnyrch y berthynas rhwng profiad a modd o gynrychioli. Mewn modd arferol, mae'r rhyngweithio ar unwaith rhwng y ddwy elfen hyn yn dod â ni i ddadgodio siart neu ddiagram - un o ofod, amser neu ddigwyddiad - heb feddwl llawer amdano. Mae'r ffenomen hon, serch hynny, yn tanddatgan cymhlethdod ac anferthedd y cysylltiadau niwral, y prosesau corfforol a meddwl sy'n ei gynhyrchu, a'r ffaith bod ein credoau, ein sensitifrwydd a'n hatgofion yn effeithio ar yr hyn y gallwn ei ddarllen a gwneud synnwyr ohono.

Nid ywr pedwar ar ddeg o gartograffydd-artist Atlas Dros Dro yn troi eu sylu ar y tu allan yn unig, ond yn hytrach yn actifadu eu synhwyrâu tuag at eu hunain, gan anelu at egluro eu profiadau, eu canfyddiadau, eu hunaniaethau, eu hemosiynau a'u teimladau corfforol a meddyliol. Maent yn mabwysiadu dull at gyfeiriadedd sy'n seiliedig ar ystyr draddodiadol map fel cynrychioliad o realiti, ond sy'n ei ehangu, yn ei gymhlethu, ac yn ei herio, – gan ddatblygu'r cysyniad o gartograffeg ar hyd llwybrau anghonfensiynol – rhai'r isymwybod, ysbrydolrwydd, meddwl, hunaniaeth, teimlad, a'r holl hynodweddau sydd yn bresenol ac yn gymysgedig ym mhob un ohonom.

Wrth gerdded drwy'r ddau lawr o arddangosfa yn Gallerie delle Prigioni, mae'r ymwelydd yn gweld yn fwy eglur faint bynnag y gall gwaith artistig ymgysylltu â realiti yn uniongyrchol, ac y gellir deall neu ddychmygu realiti ei hun (unigol neu gyfunol) y tu hwnt i gynrychiolaeth, mae hefyd yn wir bod llawer yn dibynnu'n union ar y dewis o ba feini prawf a fabwysiedir i allanoli'r berthynas hon, a thrwy ba fodd.

Mae canlyniad yr hyn yr ydym eisiau ei ddarllen mewn cynrychioliad (cartograffig neu artistig) yn y pen draw yn dibynnu nid ar ei ffyddlondeb i'r gwrthrych neu'r pwnc a gynrychiolir ond ar ba ddulliau a rheolau y bwriadwn eu dilyn yn y darlleniad hwn. Mae Atlas Dros Dro yn ymgais weledol, glywedol a gofodol i nodi'r ffin dros dro rhwng y ddau begwn hyn: darlleniad ardrawslin, agos a chraff o sefyllfa unigoly person sydd, yng nghanol pandemig byd-eang sydd eto i'w ddatrys, yn ail-werthuso eu blaenoriaethau eu hunain. Yn ei dro, mae'r arddangosfa'n disgrifio gorwel emosiynol-wleidyddol-esthetig y cyhoedd hwnnw – yr ymwelwyr – sy'n disgwyl rhywbeth gan gelfyddyd er mwyn deall eu realiti dyddiol yn atblygol.

Bywgraffiad Alfredo Cramerotti

Mae Alfredo Cramerotti yn awdur ac yn guradur celf a fformatau chyfryngau. Ef yw Cyfarwyddwr MOSTYN Cymru, ac mae wedi curadu dros 30 o arddangosfeydd ers 2011, yn Gynghorydd i'r British Council Visual Arts Acquisition Committee a'r Art Institutions of the 21st Century Foundation. Mae

wedi trefnu arddangosfeydd rhyngwladol, gan gynnwys y gyfres Ideal-Types (Fenis 2019 ac Amsterdam 2018), Sean Scully yng Nghanolfan Celfyddydau Hong Kong (2018), Shezad Dawood: Leviathan yn y Fondazione Querini Stampalia ar achlysur 57fed Biennale Fenis (2017), EXPO VIDEO Chicago (2015) a thri Phafiliwn Cenedlaethol yn Biennale Fenis (Mauritius 2015, Cymru a Maldives yn 2013). Bu hefyd yn cyd-guradu Sequences VII a gynhelir bob dwy flynedd yng Ngwlad yr Iâ (2015) a Manifesta 8 Region of Murcia (2010). Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu fel Llywydd IKT (International Association Curators of Contemporary Art), Aelod o Fwrdd Rhyngwladol AICA (International Association of Art Critics), Aelod Gweithredol o ICOM UK (International Council of Museums) ac yn aelod o CIMAM (International Committee for Museums and Collections of Modern Art). Mae ganddo PhD mewn Dylunio Cyfathrebu o'r Ganolfan Ffotograffiaeth Ewropeaidd, Prifysgol De Cymru, Caerdydd, ac mae'n Ddarlithydd Gwadd mewn sawl prifysgol yn Ewrop ac America. Mae ei waith academaidd yn cynnwys theori ac ymarfer gor-ddelweddu, sy'n ymchwilio i lithriad y ddelweddu o gynrychioliad i weithred/perfformiad, a newyddiaduraeth esthetig, sy'n mynd i'r afael â'r berthynas rhwng celf ac elfennau o gyfweiliad, dogfen, ffuglen ac adrodd. Ef yw prif olygydd y gyfres lyfrau Critical Photography ar gyfer Intellect Books ac mae wedi cyhoeddi dros 200 o destunau ar gelfyddyd, y cyfryngau ac arferion curadurol, gan gyfrannu at nifer fawr o lyfrau, catalogau a monograffau. Ymhlith ei gyhoeddiadau mae Curating the Image: Notebook for a Visual Journey (2020); Forewords: Hyperimages and Hyperimaging (2018); Unmapping the City: Perspective on Flatness (2010); a Aesthetic Journalism: How to Inform without Informing (2009).